

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

# Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Crynodeb Gweithredol

Mehefin 2022

Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

## 1) Cyflwyniad

O dan Ddeddf Gofal Plant 2006, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i sicrhau gofal plant digonol ar gyfer anghenion rhieni/gofalwyr sy'n gweithio yn eu hardal ar gyfer plant hyd at 1 Medi ar ôl iddynt droi'n 14 oed, neu hyd at 18 oed yn achos plant ag anabledd. O dan ganllawiau 2016, mae bellach yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant bob pum mlynedd i asesu amrywiaeth o ffactorau sy'n effeithio ar ofal plant yn lleol, gan gynnwys cyflenwad, galw, costau, y gweithlu, a barn amrywiaeth o randdeiliaid am y farchnad gofal plant leol. Yn flaenorol, cynhaliwyd Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant bob tair blynedd ac mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi eu cynhyrchu yn 2008, 2011, 2014 a 2017. Mae'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen i alluogi tîm y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae, a'i bartneriaid, i nodi bylchau yn y ddarpariaeth a meysydd i'w datblygu. Yna caiff y cynllun gweithredu ei ddatblygu i yrru camau gweithredu gofynnol yn eu blaen. Bydd cynnydd yn erbyn camau gweithredu yn y cynllun gweithredu yn cael ei adrodd yn flynyddol ym mis Mehefin bob blwyddyn a chytunir ar gamau gweithredu pellach, cyn cynnal yr asesiad llawn nesaf yn 2027.

## 2) Y Broses Asesu

Cynhaliodd tîm y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae yr asesiad, gan ddefnyddio dulliau amrywiol, rhwng Gorffennaf 2021 ac Ebrill 2022, gan gasglu ystod o ddata o'r ffynonellau canlynol:

- Rhieni/gofalwyr
- Plant
- Darparwyr gofal plant
- Cyflogwyr lleol
- Adrannau eraill yn yr awdurdod lleol (Addysg, Cynllunio ac Adfywio)
- Ysgolion
- Colegau addysg bellach
- Sefydliadau ambarél

Roedd casglu'r data yn cyflwyno nifer o heriau i'r tîm, gyda lefelau ymateb isel i'r holl faterion yn yr arolwg, er y cafodd llawer iawn o waith hyrwyddo ei wneud. Cynhaliwyd yr arolwg rhieni ar lefel Cymru gyfan, gydag awdurdodau lleol yn hyrwyddo'r arolwg yn eu hardaloedd. Er gwaethaf llawer o waith hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol ac ymweliadau â sesiynau chwarae a hamdden yn ystod hanner tymor mis Hydref i dargedu rhieni'n uniongyrchol, cafwyd ymateb siomedig, gyda dim ond 233 o rieni/gofalwyr yn cwblhau'r

arolwg. Roedd y cyfraddau ymateb ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru yr un mor siomedig.

Roedd rhai problemau hefyd gyda'r data a ddarparwyd drwy broses y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth, gyda rhai darparwyr heb gyflwyno unrhyw wybodaeth a pheth gwybodaeth ar goll neu'n anghywir mewn rhai achosion. Cafodd rhai o'r problemau hyn gyda data darparwyr eu datrys yn lleol trwy ddefnyddio systemau data lleol i nodi bylchau a llenwi gwybodaeth goll.

Mae'r broses asesu wedi'i chynllunio i gael cipolwg o'r farchnad gofal plant ar adeg benodol, sef Gorffennaf/Awst 2021 yn yr achos hwn. Fodd bynnag, mae'r asesiad yn cymryd i ystyriaeth y datblygiadau sydd wedi digwydd ers hynny a chyflwynir adroddiad llawn o effaith pandemig COVID-19 yn yr asesiad hefyd.

Mae'r broses asesu wedi'i chynllunio i ystyried y galw presennol a'r galw yn y dyfodol er mwyn cynorthwyo gyda chynllunio a datblygu gofal plant yn y dyfodol. Er y gellir cael data ar alw gan rieni o holiaduron rhieni lle mae sampl dda, gellir ei gael hefyd drwy edrych ar dueddiadau a datblygiadau a all effeithio ar y nifer sy'n manteisio ar ofal plant. Oherwydd maint isel y sampl, dim ond arsylwadau cyffredinol o'r arolwg rhieni y gallai tîm y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae eu gwneud, ond maent wedi rhoi cyfrif am ddatblygiadau a allai effeithio a/neu a fydd yn effeithio ar y galw am ofal plant yn y ddogfen asesu a'r cynllun gweithredu.

Yn anffodus, nid yw amseriad yr asesiad hwn wedi caniatáu i ddata cyfrifiad wedi'i ddiweddaru gael ei ddefnyddio ac felly rhoddir cyfrif am hyn yn yr adroddiad cynnydd a'r cynllun gweithredu wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2023, os oes unrhyw newid ystyrlon a allai effeithio ar y sector a/neu'r camau gweithredu sydd eisoes wedi'u cynnwys yn y cynllun gweithredu.

Mae'r asesiad o gyflenwad a galw wedi'i ystyried mewn perthynas ag ardaloedd cynllunio cymunedol eleni, yn unol ag asesiad 2017. Y rhain yw: Sirhywi, Ebwy Fawr, Gogledd Ebwy Fach a De Ebwy Fach.

## 3) Canfyddiadau

Mae poblogaeth Blaenau Gwent, yn enwedig y grŵp 0 i 15 oed, wedi bod yn gostwng ers sawl blwyddyn a rhagwelir y bydd yn parhau i ostwng hyd at ddiwedd y degawd hwn. Ynddo'i hun, gallai hynny awgrymu bod yr angen am ofal plant yn debygol o leihau. Fodd bynnag, mae ffactorau eraill a amlinellir yn yr asesiad y disgwylir iddynt effeithio ar y sector gofal plant. Mae'r rhain yn cynnwys twf yn y farchnad dai, twf posibl yn y sector cyflogaeth, ac ehangiad rhaglenni allweddol Llywodraeth Cymru (y Cynnig Gofal Plant a Dechrau'n Deg).

**Arolwg Rhieni/Gofalwyr**

Yn unol â'r asesiad diwethaf, y math mwyaf cyffredin o ofal plant a ddefnyddiwyd ym Mlaenau Gwent, fel yr adroddwyd gan rieni/gofalwyr a gwblhaodd yr holiadur, oedd gofal anffurfiol a ddarparwyd gan deulu a ffrindiau.

Dywedodd mwyafrif sylweddol o rieni/gofalwyr eu bod naill ai'n fodlon iawn neu'n eithaf bodlon ar eu darparwr gofal plant presennol (95%).

I'r rhai nad oeddent yn fodlon ar eu gofal plant, awgrymwyd y gwelliannau canlynol, a nodir yma yn nhrefn y rhai mwyaf cyffredin:

- Mwy fforddiadwy
- Ymestyn oriau agor / mwy o oriau ar gael
- Sesiynau mwy hyblyg
- Darpariaeth o ansawdd gwell
- Lleoliad gwahanol
- Gofal plant sy'n well am ddiwallu anghenion y plentyn
- Gofal dros nos a gyda'r nos

Holwyd rhieni yn benodol am rwystrau i gael mynediad at ofal plant cyfrwng Cymraeg ac roedd y rhesymau a roddwyd yn cynnwys: pellter i'r ddarpariaeth, argaeledd, oriau annigonol a chost.

Gofynnwyd i rieni pam nad oeddent yn defnyddio gofal plant ac, yn unol â'r asesiad diwethaf, y prif reswm a roddwyd oedd fforddiadwyedd gofal plant. Roedd dros hanner y rhieni yn yr arolwg yn defnyddio gofal plant anffurfiol trwy deulu a ffrindiau, er bod rhai o'r rheini'n defnyddio gofal plant ffurfiol hefyd.

Roedd sylwadau gan rieni/gofalwyr yn ei gwneud yn glir bod teimlad cryf o hyd am 'annhegwch' canfyddedig natur gyfyngedig a daearyddol rhaglen Dechrau'n Deg.

O ran galw yn y dyfodol, roedd yr arolwg yn nodi bod y rhan fwyaf o rieni/gofalwyr yn disgwyl defnyddio mwy o ofal plant yn y dyfodol neu y byddai eu hanghenion yn aros yr un fath. Roedd y mathau o ofal plant y bydd eu hangen yn y dyfodol yn dangos dibyniaeth barhaus ar ofal plant anffurfiol, wedi'i ddilyn gan yr angen am glybiau brecwast, clybiau ar ôl yr ysgol a lleoedd meithrin diwrnod llawn.

**Cyflenwad**

Ar yr adeg y casglwyd y data ym mis Gorffennaf 2021, roedd 56 o ddarparwyr ym Mlaenau Gwent, cynnydd o un darparwr ers yr asesiad yn 2017. Fodd bynnag, mae rhai darparwyr wedi cau ers hynny (un clwb ar ôl yr ysgol a phedwar gwarchodwr plant), felly mae gennym bedwar darparwr yn llai erbyn hyn. Ers 2017, mae mwy o ddarparwyr bellach wedi cofrestru i gynnig gofal dydd llawn, gyda chynnydd o ddeg i 16 darparwr. Newidiodd rhai darparwyr eu cofrestriad o ofal sesiynol i ofal dydd llawn i gefnogi cynllun peilot y Cynnig Gofal Plant ac eraill i gynorthwyo gyda'r ymateb i COVID-19. Mae hyn yn gadarnhaol gan ei fod yn cynnig mwy o hyblygrwydd i rieni o ran yr oriau gofal plant a gynigir, ond mae wedi arwain at ostyngiad bach yn y lleoedd gofal plant cofrestredig yn gyffredinol (gan fod gofal plant sesiynol wedi'i gyfrif yn flaenorol yn ôl nifer y lleoedd prynhawn a bore).

Mae pryderon ynghylch colli darparwyr a lleoedd, yn enwedig yn y ddarpariaeth a geir gan warchodwyr plant ac ar ôl yr ysgol. Caiff y pryder hwn ei adleisio gan y sefydliadau ambarél sy'n cefnogi'r sectorau hynny.

**Effaith Covid**

Roedd yr asesiad diweddaraf hwn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnwys adran ar effaith pandemig COVID-19. Mae'r asesiad yn nodi'r ymdrechion a wnaed gan y sector o ddyddiau cynharaf y pandemig i gefnogi teuluoedd gweithwyr allweddol a theuluoedd agored i niwed. Roedd gan Flaenau Gwent un o'r cyfraddau cau isaf yng Nghymru, gyda dros 65% o ddarparwyr yn parhau ar agor.

Er bod y pandemig wedi cael effaith ddiamheuol ar yr holl ddarparwyr, mae'r effaith wedi'i theimlo fwyaf difrifol gan y sector ar ôl yr ysgol, gyda chlybiau pwrpasol mewn ysgolion yn gorfod aros ar gau o ddechrau'r pandemig tan dymor yr haf 2021 ym Mlaenau Gwent. Nid yw rhai clybiau wedi ailagor o gwbl oherwydd pryderon ynghylch cynaliadwyedd ac anawsterau recriwtio.

Mae nifer y cynlluniau grant a gyflwynwyd i gefnogi lleoliadau yn cael ei gydnabod fel rhywbeth cadarnhaol ac mae'n ddiamau bod y grantiau hyn wedi chwarae rhan fawr yn agwedd gadarnhaol y sector ar y cyfan o ran ei gynaliadwyedd yn y dyfodol. Yng ngwanwyn 2022, roedd pryderon yn parhau ynghylch effaith y pandemig ar ansawdd a diogelwch, sefydlogrwydd

ariannol, a recriwtio a chadw, ond dywedodd y rhan fwyaf o ddarparwyr eu bod yn disgwyl bod mewn busnes am flwyddyn neu fwy.

### 4) Dadansoddiad o'r Bylchau

Gan ystyried yr holl wybodaeth a gasglwyd, nodwyd bylchau yn y meysydd canlynol:

- Gofal plant i rieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol
- Darpariaeth cyfrwng Cymraeg
- Darpariaeth sy'n addas i ddiwallu anghenion plant ag anghenion dysgu ychwanegol
- Darpariaeth gofal dydd llawn ym Mryn-mawr
- Darpariaeth gwarchodwyr plant yn Sirhywi ac Ebwy Fach
- Gofal plant i blant hŷn (darpariaeth ar ôl yr ysgol ac yn ystod y gwyliau)

## Y Cynllun Gweithredu

Mae'r cynllun gweithredu yn ceisio mynd i'r afael â bylchau a nodwyd yn yr asesiad ac yn adeiladu ar gynllun gweithredu blaenorol yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant ar gyfer 2021-22. Mae'n cydnabod bod rhai o'r bylchau a nodwyd eisoes yn hysbys ac yn bwriadu cau'r bylchau a oedd eisoes yn bodoli, yn bennaf drwy brosiectau'r rhaglen gyfalaf. Ymhlith y camau gweithredu mae'r canlynol:

- Cyflawni'r holl brosiectau cyfalaf (hwb Dechrau'n Deg Swffryd, gofal dydd llawn Glyncoed, estyniad Canolfan Plant Integredig Blaenau, ysgol eginblanhigyn cyfrwng Cymraeg, gofal dydd llawn Bryn-mawr)
- Gweithio i ddenu gwarchodwyr plant newydd i sefydlu busnesau yn Sirhywi ac Ebwy Fawr
- Gweithio i sefydlu dichonoldeb clybiau ar ôl yr ysgol / yn ystod y gwyliau mewn ysgolion cynradd
- Gwella cynhwysiant mewn lleoliadau
- Hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a dysgu'r Gymraeg o fewn lleoliadau presennol
- Denu darparwyr Cymraeg newydd i fanteisio ar gyfleoedd tendro ym Mlaenau Gwent
- Datblygu dulliau mwy cadarn o gasglu data gan rieni/gofalwyr sydd â phroblemau gofal plant
- Datblygu cynllun datblygu'r gweithlu sy'n mynd i'r afael â phryderon recriwtio a chadw

Mae'r asesiad llawn a'r cynllun gweithredu, ynghyd â'r crynodeb gweithredol hwn, i'w cyflwyno ar ffurf ddrafft i Lywodraeth Cymru ar 30 Mehefin. Bydd y ddogfen derfynol yn cael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru yn dilyn cyfnod o

ymgynghori cyhoeddus a gynlluniwyd ar gyfer Gorffennaf/Awst a chymeradwyaeth gan y weithrediaeth, a hynny erbyn 30 Medi 2022.